Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 33**
**6 Mawrth 2023, 13:30**
**Cyfarfod rhithiol ar Zoom**

## COFNODION

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion |
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Is-gadeirydd, CAVO |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Dr. Jo McCarthy (JMc) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr. Phil Kloer (PK) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Elwyn Williams (EW) | Cadeirydd, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Gavin Bown (GB) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rachel Jervis (RJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwilym D. Jones (GJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Megan Harris (MH) | Tîm Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Rhodri Llwyd Morgan (RLM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Yr Uwcharolygydd Ross Evans (RE) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Nia Lloyd (NLl) | Coleg Sir Gar |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Claire Bryant (CB) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Eldeg Rosser (ER) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Kelvin Barlow (KB) | Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| Scott O'Kelly (SOK) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bailie Olivia-Jones (BOJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elen James (EJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Naomi McDonagh (NMc) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Kieran Metson (KM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sara Dafydd (SD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Anwen Thomas (AT) | Cyngor Sir Ceredigion |

| 33.1 | **Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau** |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Hefyd, datgelodd y Cadeirydd fuddiant personol o dan eitem 33.8 ar yr agenda gan fod ei frawd yn byw drws nesaf i leoliad arfaethedig yr ysbyty newydd ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio.

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf |
| Y Cynghorydd Keith Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Matthew Vaux | Cyngor Sir Ceredigion |
| Dewi Day | Prifysgol Aberystwyth |
| Judith Hardisty | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Peter Skitt | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Steve Moore | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Victoria Jones | Llywodraeth Cymru |

| 33.2 | **Cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 02.12.22** |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 02.12.22 yn gywir.

| 33.3 | **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf** |
|---|---|

**Canlyniadau Cyfrifiad 2021:**
Gan fod agenda'r cyfarfod hwn yn llawn, byddai Rob Star (RS) yn cael ei wahodd i roi cyflwyniad am ddata'r Cyfrifiad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ebrill.

**Ymgynghori ynghylch Cynllun Llesiant 2023-28:**
Cadarnhaodd Naomi McDonagh (NMc) fod y wybodaeth berthnasol ynghylch Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wedi cael ei dosbarthu. Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd i holl aelodau'r Bwrdd rannu'r ymgynghoriad â'u staff, eu Timau Cyfathrebu a sefydliadau/unigolion a oedd yn rhan o'u rhwydweithiau. Nodwyd bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.

**Cyflwyniad Heneiddio'n Dda:**
Gan fod agenda'r cyfarfod hwn yn llawn, roedd Sara Humphreys (SH), Rheolwr Tîm - Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion (CSC) wedi cael gwahoddiad i roi cyflwyniad yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin.

**Cynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:**
Cadarnhaodd Jo McCarthy (JMc) y byddai Megan Harris (MH) neu Jan Batty (JB) yn dod i'r cyfarfodydd ar ran Tîm Iechyd y Cyhoedd hyd nes y byddai Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn cael ei benodi. Dywedwyd hefyd y byddai JMc a Phil Kloer (PK) yn dod i'r cyfarfodydd fel cynrychiolwyr ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**Llwybrau bysiau a mynediad at wasanaethau:**
Cadarnhaodd NMc y byddai Gerwyn Jones (CSC) yn rhoi cyflwyniad ynglŷn â llwybrau bysiau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin. Byddai hyn yn gyfle i ddechrau trafodaeth ynglŷn â mynediad at wasanaethau, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

**CAM GWEITHREDU:**
**Byddai Rob Starr yn cyflwyno data'r Cyfrifiad yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill.**
**Byddai cyflwyniad am Gymunedau sy'n Heneiddio'n Dda yn rhan o agenda cyfarfod y Bwrdd ym**

**mis Mehefin.**
**Byddai cyflwyniad am y Rhwydwaith Bysiau yn cael ei roi yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin.**

| **33.4** | **Cytuno ynghylch Cynllun Llesiant Lleol 2023-28** |
|---|---|

Rhoddodd NMc ddiweddariad am Gynllun Llesiant Lleol 2023-28. Cyfeiriodd NMc at yr adroddiad a rannwyd cyn y cyfarfod a oedd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ynghylch Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 a dadansoddiad ohonynt. Nodwyd yn yr adroddiad bod 41 o ymatebion wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori gan gynnwys 7 ymateb ysgrifenedig gan bartneriaid yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Roedd yr ymgynghoriad wedi para 12 wythnos, o fis Tachwedd tan fis Ionawr. Hefyd, gofynnwyd i Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gynnal gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion. Cafwyd adborth arbennig o dda gan 13 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd. Roedd yn bwysig nodi bod 88% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno mai'r 5 Amcan Llesiant a amlinellwyd yn y Cynllun drafft oedd y blaenoriaethau cywir.

Cadarnhaodd NMc fod gwelliannau a newidiadau wedi'u gwneud i'r Cynllun drafft ar ôl ystyried yr adborth a ddaeth i law. Roedd y Cynllun diwygiedig wedi'i ddosbarthu ymhlith yr aelodau cyn y cyfarfod fel y gallent ei ystyried. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- Cyfeiriad at drafnidiaeth gynaliadwy ac ymrwymiad i'r Siarter Teithio'n Iach.
- Cyfeiriad at gaffael a defnyddio mwy o gyflenwyr lleol.
- Defnyddio dull gweithredu Datblygu Cymunedol sy'n Seiliedig ar Asedau i wella cysylltedd ac i wneud y mwyaf o asedau lleol.
- Cyfeiriad at gynaliadwyedd bwyd a hyrwyddo mentrau tyfu bwyd yn y gymuned, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddatblygu Partneriaeth Bwyd Leol ar draws Ceredigion.
- Sylw at bwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan gynnwys y cysylltiadau â'r cyfleoedd sy'n bodoli o ran rhagnodi glas a gwyrdd.
- Pwysigrwydd yr ecosystem a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfleoedd i dyfu bwyd.
- Cyfeiriad at dai addas o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni.
- Ystyriaeth i ddata'r cyfrifiad ynghylch y Gymraeg
- Cyfeiriad at yr Asesiad Strategol ynghylch Troseddau ac Anhrefn a fyddai'n cyfrannu at flaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.
- Gwybodaeth am y mesurau llywodraethu, y pethau a gyflawnir, y prosesau ar gyfer monitro cynnydd a'r trefniadau craffu.

Yn amodol ar gytundeb aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a chymeradwyaeth gan Fyrddau'r aelodau statudol, gofynnodd NMc fod y Ffurflen Gadarnhau ar gyfer Cymeradwyo'r Cynllun (a oedd wedi'i chynnwys ym mlaen adroddiad yr eitem hon) yn cael ei llofnodi a'i dychwelyd yn dilyn cyfarfodydd y Byrddau er mwyn dangos bod y gwahanol sefydliadau yn cymeradwyo'r Cynllun. Cadarnhaodd NMc y byddai fersiynau terfynol dwyieithog o'r Cynllun yn cael eu dosbarthu yn fuan i'r aelodau cyn cyfarfodydd y gwahanol fyrddau. Pe byddai'r Cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cynllun yn cael ei lofnodi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 24 Ebrill 2023 ac yn cael ei gyhoeddi erbyn 5 Mai 2023.

Diolchodd Iwan Cray (IC) i NMc a'r Tîm am eu gwaith ar y Cynllun, ac er bod y niferoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn debyg i'r nifer a ymatebodd mewn siroedd cyfagos, mynegodd siom bod cyn lleied o bobl wedi ymateb i'r arolwg. Cytunodd NMc y byddai angen parhau â'r trafodaethau ynglŷn ag ymgysylltu â'r cyhoedd a chynyddu'r cyfleoedd i bobl ymateb i ymgynghoriadau. Ychwanegodd y byddai hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Roedd cyfleoedd yn bodoli i dynnu sylw at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a dangos gwerth y gwaith hwn i'r cymunedau. Trwy wneud hyn, y gobaith oedd y byddai gan bobl fwy o ddealltwriaeth am waith y Bwrdd ac y byddai hyn yn annog mwy o drigolion i gyfrannu at ymarferion ymgysylltu yn y dyfodol. Pwysleisiodd Catrin Davies (CD) a Hazel Lloyd-Lubran (HLL) pa mor bwysig oedd sicrhau bod iaith syml yn cael ei defnyddio i annog pobl i gymryd rhan. Dywedodd Alun Williams (AW) ei bod yn bwysig atgoffa pawb o'r rhan allweddol yr oedd gan bartneriaid i'w chwarae yn y gwaith o hyrwyddo'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

Bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymeradwyo'n ffurfiol y gwelliannau a wnaed i'r Cynllun drafft. Byddai'r Cynllun yn awr yn cael ei gyfieithu cyn y byddai'n barod i'w gyflwyno yng nghyfarfodydd Bwrdd yr aelodau statudol.

**PENDERFYNIAD: Derbyniodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gynllun Llesiant Lleol diwygiedig 2023-28**

**CAM GWEITHREDU: Byddai aelodau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno'r Cynllun gerbron eu cyfarfodydd bwrdd a byddent yn cwblhau'r Ffurflen Gadarnhau a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod i ddangos bod eu sefydliad wedi cymeradwyo'r Cynllun.**

| **33.5** | **Diweddariad ar Brosiectau Peilot y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |
|---|---|

**i.) Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Ddatgarboneiddio**

Rhoddodd Rachel Jarvis (RJ) ddiweddariad ar ran Cadeirydd yr is-grŵp, Dewi Day (DD) a oedd wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel Cadeirydd. Rhoddodd NMc ddiweddariad am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch y Cynllun Llesiant Lleol. Hefyd, rhannodd Yvette Eley (YE) o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyflwyniad am Addasu i'r Hinsawdd. Tynnodd y cyflwyniad sylw at y ffaith nad oedd y cynlluniau hinsawdd presennol yn ddigonol i ddelio â'r cynnydd a ragwelir yn y tymheredd. Dywedodd RJ fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi adroddiad gwaelodlin ynglŷn â'r Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd. Ychwanegodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wrthi'n llunio Cynllun ynghylch Addasu i'r Hinsawdd a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn 2023 a bod y gwaith hwnnw yn dal i fynd rhagddo. Byddai'r dogfennau hyn yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o weithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru, gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y sefydliad o ran addasu i'r hinsawdd, ac asesiad o ddifrifoldeb y sefyllfa a'r amser sydd gennym i weithredu. Unwaith y byddai'r copïau drafft yn barod i'w rhannu, byddai modd wedyn cynnal trafodaethau gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru ynghylch y ffyrdd y gellid cefnogi'r camau a nodir yn y dogfennau.

**CAM GWEITHREDU: Byddai RJ yn gwneud ymholiadau i weld a oedd adroddiad gwaelodlin Risgiau yn sgil yr Hinsawdd, Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i'w rannu ag Is-grŵp y Bwrdd**

**Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Rhoddodd RJ gyflwyniad am ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Llesiant Lleol. Fel rhan o ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad, cafodd argymhelliad ei gynnwys a oedd yn gofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Risgiau a'r Cyfleoedd sy'n bodoli yn sgil yr Hinsawdd. Cyfarfu RJ a NMc ar ôl i'r ymgynghoriad gau i drafod sut y gellid cynnwys awgrymiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Cynllun.

Dywedodd RJ fod DD wedi rhoi diweddariad ar brosiect Rhwydwaith Gwres Ardal Aberystwyth. Ar ôl cynnal astudiaeth dichonoldeb economaidd, cadarnhaodd DD fod adroddiad wedi'i baratoi a oedd yn amlinellu dyluniad y cynllun a'r costau. Roedd trafodaethau mewnol o fewn y Brifysgol yn awgrymu bod cefnogaeth i'r cynllun, a byddai'r camau nesaf yn cynnwys ymgysylltu â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Cafwyd diweddariadau ychwanegol gan y partneriaid ac roedd y rhain yn cynnwys y diweddaraf am fferm solar Prifysgol Aberystwyth (PA) a oedd ar fin cael ei chymeradwyo, gwybodaeth am grant gwres carbon isel a sicrhawyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a manylion prosiect Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Sir Ceredigion. Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol i aelodau'r is-grŵp ddarllen ac ystyried adroddiad COP15, a oedd yn cynnwys 23 o gamau gweithredu.

Gan fod DD wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod ar 12 Ionawr 2023, diolchodd RJ i DD am ei waith caled a chadarnhaodd ei bod wedi cytuno i fod yn Gadeirydd dros dro ac y byddai adolygiad o'r trefniadau yn cael eu cynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Croesawodd RJ y cyfle i gyflawni'r rôl hon a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r Amcanion Llesiant.

**<u>ii.) Gwella Llesiant Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi</u>**

Rhoddodd Cadeirydd yr Is-grŵp, HLL ddiweddariad. Fel y digwyddodd yng nghyfarfod is-grŵp Aberystwyth, roedd NMc wedi rhoi gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf o ran yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Llesiant ac roedd RJ wedi rhoi cyflwyniad am broses ymgynghori a chymeradwyo Cyfoeth Naturiol Cymru. Derbyniodd yr is-grŵp ddiweddariad hefyd am Gynllun Lle a Chynllun Seilwaith Gwyrdd Aberteifi gan Catrin Cond (CC). Roedd Rural Office wedi'i gomisiynu tan ddiwedd Mawrth i lunio mapiau A1 amlinellol o bob un o chwe phrif dref Ceredigion ar sail y syniadau a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Lle. Pan fyddai'r Cynlluniau Lle yn barod, byddent yn cael eu rhannu gyda phob Cyngor Tref fel y gallent ystyried unrhyw fylchau a nodwyd. O ran y Cynllun Seilwaith Gwyrdd, roedd Land Use Consultants (LUC) wedi nodi pum prosiect Seilwaith Gwyrdd a Glas posib ar gyfer pob un o'r trefi. Hefyd, yng nghyfarfod yr is-grŵp, amlinellwyd y prosiectau posibl ar gyfer Aberteifi.

Rhannodd Aled Davies (AD) a Sarah Coakham (SC), Cyfoeth Naturiol Cymru, gyflwyniad am brosiectau a ariannwyd gan grantiau a oedd yn canolbwyntio ar adeiladu cymunedau gwydn drwy gynyddu ymwneud y gymuned â natur i wella iechyd, llesiant a gwytnwch. Hefyd, rhoddodd HLL fraslun o ddiweddariad ystadegol a ddarparwyd gan Caitlin Theodorou (CT) cyn y cyfarfod parthed gwybodaeth ychwanegol ynghylch Cyfrifiad 2021 a'i oblygiadau i Aberteifi.

Cadarnhaodd HLL y byddai cyfarfod nesaf yr is-grŵp yn agored i grwpiau cymunedol Aberteifi fel y gallent dderbyn cyflwyniad gan dîm Ymchwil a Pherfformiad Cyngor Sir Ceredigion am ddata'r Cyfrifiad a'r adroddiad gwaelodlin diweddaraf. Y gobaith hefyd oedd y byddai modd darparu cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf am brosiectau i ddatblygu tref Aberteifi ar y cyd â'r Cyngor Tref.

**iii.) Llesiant Llanbedr Pont Steffan**

Rhoddodd Sara Dafydd (SD) y wybodaeth ddiweddaraf ar ran cadeirydd y Grŵp, Elen James. Roedd Elen James wedi ymddiheuro am ei bod wedi gorfod gadael y cyfarfod. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf is-grŵp Llesiant Llanbedr Pont Steffan ar 12 Ionawr 2023. Cafwyd cyflwyniad gan Roxanne Treacy (RT) ar Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a chafwyd diweddariad am y cynnydd a wnaed o ran yr ymgynghoriad ynghylch Cynllun Llesiant 2023-28 gan NMc. Fel y digwyddodd yn is-grwpiau Aberystwyth ac Aberteifi, rhoddodd RJ gyflwyniad am broses ymgynghori a chymeradwyo Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhoddodd Cathryn Morgan (CM) drosolwg o Rwydwaith Bwyd Ceredigion a diweddariad ynghylch y Grant Partneriaethau Bwyd Lleol. Dywedodd SD fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu ar ôl sawl trafodaeth yng nghyfarfodydd yr is-grŵp ynglŷn â bwyd a chysylltiad bwyd â lles. Byddai'r Grŵp hwn yn sicrhau bod yna gysylltiadau rhwng y gweithgareddau a'r cynlluniau a oedd eisoes yn bodoli gan sicrhau nad oedd neb yn dyblygu gwaith. Gyda hyn mewn golwg, byddai'n holl bwysig ystyried sut y gallai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r is-grŵp yn ehangach, gefnogi'r prosiect Partneriaethau Bwyd Lleol. Y gobaith oedd y byddai'r trafodaethau ynghylch hyn yn parhau unwaith y byddai cydlynydd i arwain y prosiect wedi'i benodi. Cafwyd diweddariad hefyd gan Carwyn Young am y datblygiadau diweddaraf o ran y Ganolfan Les yn Llanbedr Pont Steffan.

Wrth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda symud tuag at Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles (SM4HWB) gan ganolbwyntio yn yr hirdymor ar fesurau atal, dywedodd SD fod Llanbedr Pont Steffan wedi'i nodi fel man y byddent o bosib yn canolbwyntio arno wrth gyflawni'r darn hwn o waith. Cytunwyd felly y dylai'r eitem hon fod yn eitem sefydlog ar agenda'r is-grŵp yn y dyfodol.

| 33.6 | Diweddariad yr Is-grŵp Tlodi |
|---|---|

Fel Cadeirydd yr Is-grŵp Tlodi, gofynnodd Catrin Davies (CD) ar i waith caled ac ymroddiad y swyddogion a oedd yn ymwneud â'r grŵp hwn gael ei nodi a'i ganmol. Rhoddwyd y diweddariad gan CM. Mae'r is-grŵp yn cwrdd yn chwarterol, a chynhaliwyd y cyfarfod mwyaf diweddar ym mis Ionawr. Yn ystod y cyfarfod hwn, asesodd y grŵp ddata tlodi lefel uchel ac adroddiad diweddaraf Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru o'r farn bod ei ddadansoddiad yn dangos mai tlodi yw'r her unigol fwyaf sy'n wynebu pob haen o lywodraeth. Nodir wyth argymhelliad yn yr adroddiad; y cyntaf yw y dylai Llywodraeth Cymru (LlC) ddiweddaru'r strategaeth Tlodi Plant bresennol. Er bod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i ddarparu strategaeth tlodi plant, roedd y grŵp yn gytûn bod dull gydol oed yn fuddiol oherwydd effaith tlodi ar bob oedran a gwasanaeth, ac adlewyrchir hyn hefyd yng Nghynllun Llesiant Lleol 2023-28.

Cyflwynodd tîm Perfformiad ac Ymchwil CSC ddangosfyrddau data Tlodi a rhannodd Juliet Morris (Canolfan Cyngor ar Bopeth) ddolen i ddata ar lefel sirol a grewyd gan CAB sy'n dangos sut yr effeithiwyd ar ardaloedd gwahanol dros amser. Trafodwyd y Mannau Croeso Cynnes hefyd. Mae 42 o Fannau Croeso Cynnes ar fap Ceredigion ar draws ardal ddaearyddol eang. Ym mis Ionawr 2023, ymwelodd 1,941 cyfeiriad IP unigryw â'r safle a chafwyd 7,565 clic ar y map. Dywedodd CM y bydd ystadegau ar y defnydd o'r Mannau Croeso Cynnes ar gael erbyn diwedd Mawrth ond mae'n ymddangos bod mwyafrif y rhai sy'n defnyddio'r mannau yn gwneud hynny am gwmnïaeth yn hytrach nag i gadw'n gynnes. O ystyried hyn, gobeithir wrth symud ymlaen, y gellir cynnal y chefnogi'r mannau hyn i ddatblygu yn hybiau cymunedol. Rhannodd yr is-grŵp hefyd ddiweddariadau ar y cymorth a'r grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd i'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw. Gobeithir y gellir rhannu'r wybodaeth hon yn y dyfodol drwy fwletin pythefnosol.

O ran trefniadau llywodraethu yn y dyfodol, gan fod yr aelodaeth gyfredol a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn yn ymwneud â chyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-23, cadarnhaodd CM y caiff rhain eu hadolygu gan y bydd yr is-grŵp yn awr yn cynorthwyo i gyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol o Ebrill 2023. Gyda'r nod o ddarparu'r newid systemig sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â thlodi yng Ngheredigion, a'i leddfu, cynigiodd CM bod angen i'r is-grŵp gynnwys swyddog o bob un o sefydliadau partner y BGC sy'n gweithio ar dlodi a/neu gydraddoldeb, a gofynnodd i'r aelodau ystyried staff yn eu sefydliadau a allai ychwanegu gwerth at waith yr is-grŵp.

**CAM GWEITHREDU: Partneriaid i ystyried staff yn eu sefydliadau a allai ychwanegu gwerth at waith yr is-grŵp, a rhannu manylion cyswllt gyda CM.**

| 33.7 | **Diweddariad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** |
|---|---|

Cafwyd cyflwyniad gan Kelvin Barlow (KB), Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar Gynllun Ardal Gorllewin Cymru. Sefydlwyd Bwrdd Ataliadau ar sail ranbarthol gyda HLL yn gyd-Gadeirydd ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Bwrdd Ataliadau hyd yma. Ymysg gweithgarwch arall yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymgymryd ag Asesiad Poblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a fydd yn sail i Gynllun Ardal Rhanbarthol, sy'n ofyniad statudol. Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud yn siwr bod yr Awdurdod Lleol a phartneriaid y Bwrdd Iechyd Lleol yn cydweithio'n effeithiol i ymateb i'r Asesiad Poblogaeth a rhoi'r Cynlluniau Ardal ar y cyd ar waith.

Mae'r Asesiad Poblogaeth yn nodi rhagamcan o'r galw sy'n ganlyniad i rai ffactorau – er enghraifft, oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, mae grwpiau poblogaeth fel dementia, pobl hŷn a gofalwyr yn debygol o gynyddu o ran y galw. O'r Asesiad hwn, gwelwyd themâu fel mynediad at wasanaethau yn y gymuned ac aros am asesiad a diagnosis ar draws grwpiau o'r boblogaeth. Aseswyd sefydlogrwydd gwasanaethau rheoleiddiedig hefyd, gan rancio pob gwasanaeth rheoleiddiedig lle'r oedd coch yn cynrychioli ansefydlogrwydd a gwyrdd yn cynrychioli sefydlogrwydd.

Mae'r Cynlluniau Ardal ar y cyd yn nodi'r gwasanaethau a gynllunir gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol mewn ymateb i themâu craidd. Dull y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw canolbwyntio ar ardaloedd lle ceir cydweithio/integreiddio ar draws y rhanbarth sy'n ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu cynlluniau manwl eraill, a chysoni â threfniadau llywodraethu lleol a rhanbarthol sy'n bodoli.

Blaenoriaethau lefel uchel arfaethedig dan y Cynllun Ardal ar gyfer 2023-28:

1. Cynorthwyo pobl i reoli eu llesiant eu hunain.
2. Cynorthwyo pobl i aros yn agosach i'w cartref.
3. Sicrhau bod y gwasanaethau iawn ar gael i fodloni'r galw.
4. Sicrhau gweithlu sefydlog a chryf.
5. Cynllunio a darparu ein gwasanaethau i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Oherwydd prinder amser, cytunodd KB anfon y cyflwyniad PwerBwynt at yr aelodau ar ôl y cyfarfod iddynt fwrw golwg arno.

**CAM GWEITHREDU: KB i rannu sleidiau'r cyflwyniad PwerBwynt â'r Tîm Partneriaethau i'w cylchredeg i aelodau'r BGC.**

| | |
|---|---|
| | |
| **33.8** | **Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar leoliad ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd** |

Rhannodd Eldeg Rosser (ER) gyflwyniad ar yr Ymgynghoriad ynghylch Safle'r Ysbyty Newydd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer bron i 400,000 o bobl ar draws y rhanbarth trwy 4 ysbyty, 5 ysbyty cymunedol, 2 ganolfan gofal integredig yn ogystal â chyfleusterau cymunedol. Mae'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal Wedi'i Gynllunio newydd arfaethedig yn rhan o strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu mwy o gymorth a gofal cydgysylltiedig mor agos at y cartref â phosibl mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu 3 safle posib ar gyfer ysbyty newydd – Spring Gardens yn Hendy-gwyn ar Daf, Tŷ Newydd yn Hendy-gwyn ar Daf, a Sanclêr. Cafodd y safleoedd hyn eu nodi oherwydd eu lleoliad daearyddol canolog yn y rhanbarth, gan alluogi'r rhan fwyaf o'r boblogaeth i gael mynediad at adran achosion brys o fewn awr. Nod yr ymgynghoriad yw casglu barn y cyhoedd am y safle arfaethedig gorau, yn ogystal ag unrhyw bryderon. Atgyfnerthodd ER nad oes safle a ffefrir ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw dir wedi'i brynu hyd yma ar gyfer y datblygiad hwn. Mae prynu safle a darparu'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal Wedi'i Gynllunio newydd yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru, sydd heb ei gadarnhau eto, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddwyn ffrwyth.

Cadarnhaodd ER y bydd y prif ysbytai yn parhau i ddarparu gofal arbenigol o safon na ellir ei ddarparu mewn mannau eraill yn y gymuned, fel y cytunwyd yn strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn 2018. O ran Ceredigion, bydd Ysbyty Bronglais yn parhau i ddarparu gwasanaethau brys a gofal wedi'i gynllunio, gydag achosion mwy arbenigol yn cael eu trosglwyddo i'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal Wedi'i Gynllunio newydd, yn ogystal â safleoedd rhanbarthol ar gyfer gofal mwy critigol. Bydd ysbytai Glangwili a Llwynhelyg yn cael eu hail-bwrpasu fel ysbytai cymunedol, gan ddarparu canolfannau gofal brys dan arweiniad meddygon teulu 24/7. Yr Ysbyty Gofal Brys a Gofal Wedi'i Gynllunio newydd fydd y prif safle ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio rhanbarthol, gan ddarparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant, oedolion, ac iechyd meddwl mewn ffordd fwy canolog. Bydd hefyd yn gweithredu fel prif Adran Achosion Brys ac Uned Trawma Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Amlinellodd ER fanteision yr Ysbyty Gofal Brys a Gofal Wedi'i Gynllunio newydd arfaethedig, gan gynnwys gostyngiad yn nifer yr achosion o ddyblygu gwasanaethau ar draws safleoedd, gallu i gynnig gwasanaethau mwy arbenigol, gwelliannau o ran recriwtio a chadw staff yn ogystal ag adeiladau modern ac effeithlon a fyddai'n cefnogi cyflawni targedau lleihau carbon. Cynigiwyd hefyd y bydd ail-bwrpasu Glangwili a Llwynhelyg fel ysbytai cymunedol yn galluogi'r mwyafrif o gleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty Gofal Brys a Gofal Wedi'i Gynllunio i'w cartrefi eu hunain neu i ysbytai mwy lleol o fewn 72 awr.

Cynhaliwyd trafodaeth sylweddol yn dilyn y cyflwyniad. Ategodd Barry Rees (BR) bwysigrwydd cynnal gwasanaethau ym Mronglais oherwydd lleoliad daearyddol yr ysbyty arfaethedig, a'r amser sydd ei angen i deithio i Gaerfyrddin yn enwedig o ogledd y sir. Cadarnhaodd PK y bydd darpariaeth gwasanaethau yn cael ei chynnal ym Mronglais fel yr amlinellwyd yn strategaeth 2018 – Mae'r ysbyty arfaethedig yn ceisio cryfhau gwydnwch Bronglais drwy gysylltedd rhwng y

safleoedd, yn ogystal â'r posibilrwydd o gylchdroi clinigwyr. Holodd IC a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i integreiddio gwasanaethau ar y safle arfaethedig. Fe wnaeth ER gydnabod bod hwn yn bwynt gwerthfawr, a chadarnhaodd, er bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaethau cymdeithasol, y bydd angen cysylltu â gwasanaethau cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen.

Amlinellodd HLL bwysigrwydd ystyried trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn benodol amcanestyniadau o sut olwg fydd ar hyn yn y dyfodol oherwydd rhagwelir y bydd pwysau cynyddol. Nododd HLL fod darparwyr trafnidiaeth gymunedol eisoes yn gweld cynnydd yn y galw ar eu gwasanaeth at ddibenion cludiant iechyd. Dywedodd ER fod rheolwr cludiant wedi'i benodi yn y misoedd diwethaf a fydd yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i ystyried atebion ynghylch y galw ar wasanaethau. Mynegodd Elwyn Williams (EW) bryderon ynghylch perygl llifogydd posibl ar safle arfaethedig Tŷ Newydd yn Hendy-gwyn ar Daf. Dywedodd ER fod trafodaethau rhagarweiniol a gynhaliwyd gyda chynllunwyr wedi awgrymu nad oedd unrhyw gyfyngiadau ar ddatblygu ar y safle oherwydd topograffeg y lleoliad arfaethedig. Nododd HLL y dylid hefyd ystyried mynediad i'r safle yn achos llifogydd ar gyfer staff a chleifion.

Nododd Rhodri Llwyd Morgan (RLM) fod Ysgol Filfeddygol Prifysgol Aberystwyth wedi agor ei drysau'n ddiweddar a bod graddau nyrsio wedi dechrau cael eu cynnig ar y campws mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Holodd RLM i ba raddau yr ystyriwyd darpar feddygon a nyrsys wrth benderfynu ar leoliadau'r ysbyty arfaethedig ac a fyddai'r ffactor hwn yn gwneud safle'n fwy neu'n llai ffafriol. Cadarnhaodd PK fod hyfforddiant cynaliadwy o ansawdd uchel yn rhan hanfodol o'r strategaeth – mae Ysgol Nyrsio Prifysgol Aberystwyth yn hollbwysig ac yn cryfhau cynnig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i nyrsys.

Cynigiodd Iwan Cray (IC) y dylid ystyried cydleoli gwasanaethau brys.

Cynigiodd Ross Evans (RE) y gellid ffurfio grŵp rhanddeiliaid ar gyfer y gwasanaethau brys er mwyn rhannu adborth a helpu i lunio'r cynllun wrth symud ymlaen. Gan fod cryn dipyn o amser swyddogion yn cael ei dreulio yn ymateb i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ar hyn o bryd, holodd RE hefyd beth fyddai goblygiadau'r cynnig hwn ar ddarpariaeth a gwasanaethau iechyd meddwl. Dywedodd ER y bydd yr ysbyty arfaethedig yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, a chynigiodd bod sgyrsiau pellach yn cael eu cynnal gyda Heddlu Dyfed-Powys (HDP) y tu allan i'r cyfarfod. Adleisiodd CD bryderon RE ynghylch cymorth iechyd meddwl yn y rhanbarth. Cytunodd PK nad yw teithio i Lanelli o Geredigion yn ddelfrydol, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i ymdrechu i wella gwasanaethau yng Ngheredigion. Anogodd ER yr aelodau i sicrhau bod eu hadborth yn cael ei ystyried drwy gwblhau'r arolwg ar-lein.

**CAM GWEITHREDU**: ER i rannu sleidiau'r cyflwyniad PowerPoint gyda'r Tîm Partneriaethau i'w dosbarthu i aelodau'r BGC.

| **33.9** | **Adborth gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|

Darparwyd y diweddariad gan NMc, gan nad oedd y Cynghorydd Keith Evans yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Diolchodd NMc i HLL am adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 18.01.23 ar ran y BGC. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd ac a drafodwyd yn y Pwyllgor:

- Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo i groesawu ceiswyr lloches i Geredigion
- Mae dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei ystyried a'i drafod
- Mae Mannau Croeso Cynnes yn cael eu trafod yn barhaus gyda Chymunedau.

| **33.10** | **Cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhanbarth De-orllewin Cymru 2023-24** |
|---|---|

Dywedodd NMc fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cymeradwyo cyllid rhanbarthol yn ddiweddar mewn cysylltiad â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-24 i 2025-26. Rhoddodd y Gweinidog arwydd hefyd fod y cyllid grant ar gael am gyfnod o dair blynedd.

Cadarnhaodd NMc fod cais rhanbarthol am gyllid wedi'i gyflwyno ym mis Chwefror i Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o recriwtio swyddog i reoli system ddata Gorwel. Y gobaith yw y bydd Gorwel fel adnodd yn helpu i fod yn sail i ddarnau o waith yn y dyfodol, megis yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant Lleol dilynol, gan y bydd yn gweithredu fel storfa o ddata byw gan sefydliadau partner mewn perthynas â llesiant. Cadarnhaodd NMc fod gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn sefydlu adnodd tebyg yn genedlaethol, a'r gobaith yw y bydd Gorwel yn gweithredu fel peilot i baratoi'r ffordd ar gyfer hyn. Diolchodd NMc i RS a'i dîm am eu gwaith i sicrhau bod y system wedi cyrraedd lle mae hi nawr. Pe bai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno, bydd y cyllid yn cynorthwyo i benodi aelod o staff a fydd yn rheoli Gorwel, yn rhoi hyfforddiant ynglŷn â mewnbynnu data ac yn dadansoddi data i'w gyflwyno yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â'r bwriad i ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i recriwtio aelod o staff i reoli system Gorwel.**

| **33.11** | **Unrhyw fater arall** |
|---|---|

Dywedodd SD fod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ar hyn o bryd yn cynnal Asesiad Strategol o Drosedd ac Anhrefn, ac yn gofyn am farn y cyhoedd trwy holiadur. Aeth yr holiadur yn fyw ar 31 Ionawr 2023 a bydd yn cau ar 28 Mawrth 2023. Bydd yr holiadur hwn yn helpu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i adnabod y prif broblemau sy'n effeithio ar yr ardal leol, cael persbectif ar faterion pwysig fel ofn troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, yn ogystal â chynorthwyo i ddyrannu adnoddau'n effeithiol a blaenoriaethu gweithgareddau. Ynghyd â data gan gydweithwyr yn yr Heddlu a phartneriaid eraill, bydd yr adborth yn helpu i roi sylfaen sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fod yn sail i Gynllun Cyflawni nesaf y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Gwahoddodd SD yr aelodau i rannu eu barn mewn ymateb i'r holiadur ac i hyrwyddo'r ymgysylltu trwy eu rhwydweithiau. Gellir ymateb ar-lein, neu drwy lawrlwytho'r ffurflen ymateb o dudalen Ymgynghoriadau Cyngor Sir Ceredigion a'i dychwelyd yn y post. Mae copïau papur ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Ceredigion. Mae fformatau amgen megis copïau Hawdd eu Deall, Person Ifanc a Phrint Bras hefyd ar gael i'w lawrlwytho. Cadarnhaodd SD y cysylltwyd â nifer o randdeiliaid, a bod aelodau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cael pecyn digidol o adnoddau gan gynnwys datganiad i'r wasg, negeseuon cyfryngau cymdeithasol a phosteri i'w rhannu â'u Timau Cyfathrebu. Mewn ymateb i ymholiad y Cadeirydd ynghylch a fu cysylltiad ag ysgolion, cadarnhaodd SD y cynhelir sesiwn gyda'r Cyngor Ieuenctid ar 17 Mawrth 2023. Cynigiodd y Cadeirydd a CD Anwen Bowen fel cyswllt defnyddiol ar gyfer creu cysylltiadau â'r Urdd.

| | |
|---|---|
| Ni chodwyd dim materion pellach. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hamser a'u cyfraniadau. | |
| **33.12** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** |
| 24 Ebrill 2023 – 14:00-15:00 | |